# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Chwefror 2017

Amser: 14.30 - 15.59

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3895

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd)<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Tystion: | Yr Arglwydd Murphy o Dorfaen |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Sam Mason (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

View the meeting transcript (PDF 309KB) View as HTML

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nathan Gill. Ni chafwyd dirprwy.

## 2 Ymchwiliad Llais cryfach i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 1

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Arglwydd Murphy o Dorfaen.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

**3.1 SL(5)050 – Rheoliadau Rhent-daliadau (Pris Adbrynu) (Cymru) 2017**

**3.2 SL(5)053 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2017**

**3.3 SL(5)055 – Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygio) 2017**

**3.4 SL(5)058 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017**

3.0a Ystyriodd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon â hwy.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

**4.1 SL(5)051 – Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017**

4.1a Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn a cytunodd i adrodd i'r Cynulliad.

## 5 Papur i'w nodi

### 5.1 Ymchwiliad Llais cryfach i Gymru: Gohebiaeth oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

5.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Ymchwiliad Llais cryfach i Gymru: Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth a ddaeth i law.

## 8 Ymchwiliad Llais cryfach i Gymru: Rhaglen amlinellol y panel dinasyddion

8.1 Cytunodd y Pwyllgor y rhaglen amlinellol ar gyfer y panel i ddinasyddion ar 13 Chwefror.

## 9 Briff cyfreithiol : Dyfarniad y Goruchaf Lys ar Erthygl 50 Cytundiad yr Undeb Ewropeaidd a Chonfensiwn Sewel

9.1 Nododd y Pwyllgor y briff cyfreithiol.

## 10 Biliau Cydgrynhoi: Gohebiaeth ddrafft i'w gytuno

10.1 Cytunodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ddrafft.